# COFNODION O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH

# 16 MAWRTH 2023

# BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: J.Hurley (Chair) a/ac N.Jenkins

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Thomas, R.Crowhurst, I.Guy, H.Lewis, J.Merrifield, C.Millis, Rees, C.Saunders, PWalker, M. Wynne, S.McCluskie ac A.Thomas

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Jeremy Hurley yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Derbyniwyd y datganiadau o fuddiannau canlynol.

Y Cyng. N Jenkins ar gyfer eitem 7 ar yr agenda.

Paul Walker ar gyfer eitem breifat 14 ar yr agenda

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion blaenorol Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet, a gynhaliwyd ar 25 Ionawr ac 8 Chwefror, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Bod y Flaenraglen Waith 2022/23 ar gyfer Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet yn cael ei nodi.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

7. **DERBYNIADAU I YSGOLION (CANLYNIADAU YMGYNGHORI)**

**Penderfyniad:**
Yn dilyn ymgynghoriad a chan roi sylw dyledus i atodiad A, bod Aelodau'n cymeradwyo'r trefniadau derbyn ar gyfer Ysgolion Cymunedol ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/2025 fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn i'r cyngor gyflawni'i ddyletswyddau statudol a chanllawiau arfer da mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Sul 19 Ionawr 2023.

**Ymgynghoriad:**
Roedd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad gyda phenaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion cymunedol ac ysgolion a gynhelir yn wirfoddol o fewn y Fwrdeistref Sirol a'r

8. **PERFFORMIAD CHWARTER 3**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi at ddibenion monitro.

9. **DIWEDDARIAD AR BRYDAU YSGOL AM DDIM**

**Penderfyniad:**
Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth

10. **DYSGU PROFFESIYNOL**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

## 11. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 12. MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD

Penderfynu gwahardd y cyhoedd o'r eitemau canlynol yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 13. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD 2025

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i Atodiad 1, 2 a 3 yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd,

1. bod Aelodau'n cymeradwyo'r cynigion a gyflwynwyd gan yr Urdd i gynnal Eisteddfod Genedlaethol 2025 ym Mharc Margam.

2. Bod Aelodau'n cymeradwyo'r effaith ariannol i'r cyngor o £80,000, a roddir o’r neilltu o fewn Cynllun Ariannol Tymor Canolig 25/26.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Bydd Castell-nedd Port Talbot a'i breswylwyr yn elwa o gynnal digwyddiad diwylliannol mawr.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Sul 20 Ionawr 2023.

**Ymgynghoriad:**
Nid oes gofyniad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon.

## 14. TREFNIADAU ARWEINYDDIAETH - CELTIC LEISURE - ADRODDIAD PREIFAT

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig,

1. bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd, ar yr amodau a thelerau y

cytunwyd arnynt ar gyfer cytundeb secondiad rhwng y cyngor a Hamdden Celtic.

2. Bod Aelodau'n cymeradwyo'r cymorth gyda chefnogaeth arweinyddiaeth nes y trosglwyddir gwasanaethau i'r cyngor, erbyn 1 Ebrill 2024 fan bellaf.

3. Bod Aelodau'n cymeradwyo'r cais gan Hamdden Celtic i gael gwared ar swydd eu Prif Weithredwr o 31 Mawrth 2023.

4. Bod costau'r swydd y cytunir eu bod yn cael eu colli yn cael eu talu’n unol ag amodau'r indemniad a roddwyd gan y cyngor i Hamdden Celtic ar 21 Hydref 2020.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Bydd arweinyddiaeth addas ar waith i sicrhau trosglwyddiad llyfn o wasanaethau dan do Hamdden Celtic i'r cyngor erbyn 31 Mawrth 2024.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Mewn cytundeb â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Lles, rhoddir y penderfyniad ar waith yn syth.

**Ymgynghoriad:**
Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol.

**CADEIRYDD**